OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1372

# Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

## RHAN 1

Rhagarweiniad

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Mehefin 2009.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") ac "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw personau a benodwyd fel y cyfryw o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcas mochyn neu ran o garcas mochyn;

ystyr "da byw" ("*livestock*") yw anifeiliaid carnog ac eithrio ceffylau;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw fan;

ystyr "mangre heintiedig" a "mangre wedi ei heintio" ("*infected premises*") yw unrhyw fangre sydd wedi'i datgan fel y cyfryw gan Weinidogion Cymru o dan Ran 3;

ystyr "mochyn" ("*pig*") yw anifail o dylwyth y suidae.

### Cyfeiriadau at feddiannydd

**3.**—(1) Caniateir i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn i feddiannydd mangre gael ei gyflwyno i berson y mae'n ymddangos i'r un sy'n cyflwyno'r hysbysiad fod y person hwnnw'n gyfrifol o ddydd i ddydd am y fangre neu am unrhyw foch sydd ar y fangre (gweler rheoliad 32 ar gyfer darpariaeth bellach ynglŷn â hysbysiadau).

(2) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno i berson y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (1), mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at feddiannydd y fangre honno'n gyfeiriad at y person hwnnw.

### Esemptiadau

**4.**—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r canlynol—

(a) unrhyw beth a wneir o dan delerau trwydded a roddwyd o dan Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008(**2**), neu

(**1**) 1981 p.22.
(**2**) O.S. 2008/1270 (Cy.129).

(b) unrhyw safle arolygu ar y ffin, canolfan gwarantîn neu gyfleuster cwarantîn a gymeradwywyd at ddibenion Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006(**3**).

(2) Nid yw Rhannau 3 a 4 yn gymwys yn ystod unrhyw gyfnod y mae camau'n cael eu cymryd o dan Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006(**4**).

(**3**) O.S. 2006/1536 (Cy.153).
(**4**) O.S. 2006/179 (Cy.30).